Diane McCrea
Cadeirydd
Cyfoeth Naturiol Cymru

8 Rhagfyr 2017

Annwyl Diane,

**Adroddiad pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**

Diolch yn fawr iawn am fod yn bresennol yn ein cyfarfod Pwyllgor ar 16 Tachwedd gyda Ceri Davies a Kevin Ingram. Roedd yn ddefnyddiol i'n haelodau gael gwell dealltwriaeth o'r materion y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hwynebu a'ch dull gweithredu o ran deddfwriaeth a newidiadau polisi.

Hoffwn dynnu eich sylw at ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, sy'n crybwyll rhai o'r materion o ran adnoddau a drafodwyd gennym yn ystod y cyfarfod. Mae'r adroddiad yn nodi bod y Pwyllgor yn pryderu am y gwahaniaeth barn sydd ynghylch effaith gostyngiadau cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ac am y sicrwydd gan Ysgrifennydd y Cabinet na fyddai'r gostyngiad o ran cyllid ar gyfer costau staff yn effeithio ar wydnwch CNC.

Rydym hefyd wedi nodi barn Ysgrifennydd y Cabinet y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gynyddu ei refeniw o gyfleoedd masnachol. Mewn ymateb, mynegodd y Pwyllgor bryderon am allu ac arbenigedd CNC yn y maes hwn.

Mae ein hadroddiad yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, wrth drafod â Chyfoeth Naturiol Cymru, barhau i adolygu gallu CNC i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i swyddogaethau statudol. Mae'n argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu adroddiad cychwynnol ar y mater hwn i'r Pwyllgor o fewn chwe mis.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar ein hadroddiad, byddwn yn falch o'u cael.

Rydym yn gobeithio cyfarfod â'ch Prif Weithredwr newydd, Clare Pillman, ar ôl iddi ddechrau yn y swydd. A oes modd i chi anfon gwahoddiad ymlaen ati, iddi hi ymuno â ni **o 9.30 tan 10.30 yn ein cyfarfod ar 1 Chwefror 2018**?

Yn gywir,



Mike Hedges AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**